Mynd ar wyliau

Cysyniadau: **Gofal am eraill, mwynhad, gwerthfawrogi, parchu.**

Amcan: **Dangos pa mor bwysig ydi cofio am eraill.**

Cyfarpar: **Bag gwyliau, gwisg nofio, bwced a rhaw, sbectol haul, tywel, eli haul.**

Cyflwyniad:

● Rhoi bag gwyliau ar y bwrdd yn cynnwys gwisg nofio, bwced a rhaw, eli haul, sbectol haul a thywel ynddo.

● Beth fyddwch chi'n fynd efo chi ar eich gwyliau?

● Lle byddwch chi'n hoffi mynd? Dramor neu aros yng Nghymru?
I lan y môr neu crwydro o gwmpas y wlad?
Neu ydy'n well gennych chi aros adref? (Byddwch yn ofalus rhag ofn na fydd rhai plant yn mynd ar eu gwyliau.)

● Cerddwch o gwmpas efo'r bag gwyliau gan gymryd arnoch ei fod yn drwm a'ch bod yn mynd ar eich gwyliau y diwrnod ar ôl i'r ysgol gau am y gwyliau. Tynnwch gynnwys y bag allan fesul un gan ofyn tybed oes rhaid cael y gwahanol eitemau. Tynnwch y wisg nofio ar y diwedd – er mwyn i'r plant gael dipyn o hwyl!

● Tybed oes yna rywbeth ar goll?
Beth fydden nhw'n ei roi yn y bag?

● Tybed fydden nhw angen rhywbeth ychwanegol os oedden nhw'n mynd ar wyliau cerdded neu i'r wlad?

Trafodaeth bellach:

Hysbyseb am wyliau rhagorol:

Cofiwch:

- Pacio'ch bag y munud olaf. Ei lenwi i'r ymylon efo pob math o bethau.
- Pan fyddwch yn cyrraedd y maes awyr gwneud yn saff fod eich pasbort yn ddiogel. Does dim rhaid chwilio amdano cyn cychwyn o'r tŷ.
- Pan welwch chi giw mawr o bobl yn disgwyl yn y maes awyr ewch ar eich union i ffrynt y ciw.
- Ar ôl mynd i mewn i'r awyren gwnewch ddigon o sŵn a cherddwch yn ôl a blaen.
- Ar ôl cyrraedd y gwesty rhedwch ar hyd y coridor, ewch i fyny ac i lawr yn y lifft a neidiwch i mewn ac allan o'r pwll nofio.
- A chofiwch, y chi sydd i fod gyntaf yn y ciw pan fydd y ffreutur yn agor ar gyfer brecwast, cinio a swper.
- Gwnewch hyn i gyd ac fe gewch wyliau i'w gofio am byth. Mwynhewch.

Trafodaeth bellach:

- Ydych chi'n meddwl bod yr hysbyseb hwn yn un da? Pam?

- Beth fyddech chi wedi'i gynnwys neu ei hepgor yn yr hysbyseb?

- Mae'n rhaid gwneud yn saff fod y pethau angenrheidiol gennym ond tybed a oes angen pethau eraill?

- Beth am i ni fynd ag 'agwedd' garedig tuag at bobl eraill? Yn aml iawn yn y maes awyr mae pobl yn rhuthro a gwthio er mwyn cael bod ar flaen y ciw. Ai dyna'r agwedd gywir?

- Beth am fod yn 'bwyllog'? Gall y daith ar yr awyren, y llong neu'r car fod yn daith hir. Felly mae'n rhaid dysgu bod yn amyneddgar er mwyn mwynhau'r gwyliau.

● A beth am 'fwynhau' a dangos 'brwdfrydedd'? Yn aml iawn mae rhywun yn clywed, 'Dydw i ddim eisiau mynd' neu 'Mae'n well gen i aros yn y gwesty' neu 'Mae'r daith yn hir. Pa bryd ydyn ni'n mynd i gyrraedd pen y daith?'

● Cofiwch roi yr 'agweddau' hyn i gyd yn y bag gwyliau. Cofiwch fod y teulu i gyd ar eu gwyliau, nid chi'n unig.

● Felly cofiwch am y pethau angenrheidiol – y sbectol haul ac eli haul – ond cofiwch hefyd am y pethau cadarnhaol sy'n bwysig iawn pan fyddwch yn mynd ar eich gwyliau. A bydd pawb wedyn yn mwynhau gwyliau gwerth chweil.

Emyn: Dewch, ymunwch yn y dathlu: Canu Clod 106

Dyfyniad o'r Beibl:
Roedd llawer iawn o bobl yn dilyn Iesu a'i ddisgyblion:
Ond roedd cymaint o bobl yn mynd a dod nes bod dim cyfle iddyn nhw fwyta hyd yn oed. Felly dyma Iesu'n dweud, "Gadewch i ni fynd i ffwrdd i rywle tawel i chi gael gorffwys." Marc 6:31 beibl.net

Munud i feddwl:
Gwyliau ydi'r unig beth yr ydych yn ei brynu sy'n eich gwneud yn gyfoethocach.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch i ti, O Dduw, am y rhodd o wyliau. Rydym wrth ein boddau yn cael mynd ar wyliau neu aros adref i chwarae efo ffrindiau. Cadw ni'n ddiogel lle bynnag y byddwn a helpa ni i fwynhau pob munud. Mi fydd yr amser i ni fynd yn ôl i'r ysgol yn dod yn ddigon buan. Diolch. Amen.